

Dwi wastod yn rannu fy mlwyddyn o waith yn Theatr na nÓg mewn i dri cyfnod penodol. Mae fe'n gyfle i fi cymryd anadl ac I ail-ddechrau bron a bod. Saib fach.

Yr un cyntaf yw dechrau'r flwyddyn galendr Ionawr 1af, a'r ail yw Ebrill, dechrau'r flwyddyn ariannol, a'r trydydd Medi, dechrau'r tymor ysgol.

Doedd eleni ddim yn wahanol - os rhywbeth, mae'r cyfnodau hyn yn fwy eglur a phendant nag erioed.

Ym mis Ionawr ar ddechrau 2020, roeddwn yn llunio cynllun ar gyfer ein Hadolygiad Buddsoddi. Roeddwn eisoes wedi dechrau mireinio ac ailffocysu ein pwrpas gyda sgysiau gyda'n partneriaid yn hydref 2019.

Roeddwn yn edrych ar ail-werthuso ein hamcan i sicrhau ein bod o fudd i'n cymunedau. Roedd hi'n amser cyffrous.

Yna Stop. Mis Mawrth wrth i'r holl theatrau gau ildion ni i ein cartefi ac ein stafelloedd zwm.

Dwi'n cofio pan ddechreuais I yn fy swydd cyngor ges i gan gan gyfrifydd wrth wynebu argyfwng, peidiwch byth â chau y siop, daliwch ati i weithio, daliwch ati os fedrwch chi. "Keep the light on."

Felly ym mis Ebrill, fe wnaethom sefydlu cynllun ar gyfer Covid gyda thri prif blaenoriaeth: - Cefnogi gweithwyr llawrydd; Cefnogi lleoliadau a chefnogi ein cynulleidfa ysgol.

Roedd pob blaenoriaeth o fudd i'w gilydd, ac yn unol â'n cynllun Adolygiad Buddsoddi.

Ers mis Mawrth rydym wedi cynhyrchu 14 o gynyrchiadau yn Gymraeg, Saesneg, Bahasar - ar-lein ac ar y radio.

Rydym ar hyn o bryd yn datblygu 6 chynhyrchiad newydd - Yn amrywio o berfformiadau ar-lein, radio, a pherfformiadau byw. Nawr rydym ni wedi cyrraedd mis Medi - y flwyddyn ysgol newydd lle byddem ni yn ol yr arfer yn creu cynhyrchiad theatr byw ar gyfer 5,000 o blant ysgol. Yn lle hyn, rydym wedi addasu. Cynhyrchu nid un perfformiad byw ond tair gyfres drama radio i blant, nid yn unig yn ein hardal ond ledled Cymru, gyda'r potensial i ddarlledu yn yr Alban ac ar y World Service.

Mae Covid wedi cyflyrru ni i addasu, i fentro, i roi cynnig ar bethau, i ymgysylltu â grwpiau amrywiol a chynulleidfaoedd newydd.

Rydym wedi dysgu a datblygu cymaint yn ystod y 6 mis diwethaf. Rydym wedi profi ffyrdd newydd o weithio, wedi trafod ein weledigaeth artistig gyda grwpiau gwahanol. Mae wedi ail-agor ein llygaid a'n meddyliau i'r hyn sy'n bosibl.

Mewn blwyddyn nodweddiadol, rwy'n amau a fyddem wedi cael yr amser neu o bosib y dewrder i fentro. Rwy'n credu ein bod ar lwyfan cryfach i edrych y tu hwnt i'r pandemig a delio â'r heriau mwy sylweddol sydd o'n blaenau.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r tîm yn Theatr na nÓg, y staff a'n bwrdd o ymddiriedolwyr ymroddedig; I'r theatrau a chanolfannau sydd wedi cefnogi ein cynlluniau Newydd; I'n cynulleidfaoedd sydd wedi parhau i'n cefnogi Ac yn arbennig i'r gweithwyr llawrydd gwych sydd wedi ein bywiogi a goleuni'r ffordd i ni gyda syniadau gwych a dyfeisgar

Diolch o galon.